Taith Sgïo 'New Hampshire' 2018

Y daith



Er y daith fawr oedd o'm blaenau roedd pawb methu disgwyl i fynd ar y bws a chychwyn y daith am America bell. Ond, roedd un problem... dim bysiau! Pawb yn sefyll yn yr oerni am 2:30 y bore a dim bysiau i'w gweld yn unman! Dim ond sŵn panic llwyr Mr Sion Jones. Er, cyn pen dim, roeddem yn mynd am y maes awyr! Tydi cael 80 o bobl ifanc yn rhedeg drwy'r maes awyr hefo'r athrawon yn mynd o'u cô BYTH yn olygfa hardd! Ond yn sicr ar ôl hynny roedd pawb wedi deffro! Ar ôl cyrraedd yr ail awyren, roedd pawb wedi setlo i mewn yn ddigon sydyn ac yn gobeithio fod y chwe awr nesaf am fynd yn ddigon hwylus.

Wrth deithio ar y bws i'r gwesty roedd baner yr Unol Daliaethau America ym mhobman! Roedd eu balchder o'r wlad yn annisgwyliedig- yn enwedig yn y rhannau ychydig fwy mynyddig.

Y Gwesty

Cawsom 'barti pitsa' ar ôl cyrraedd y gwesty ac yn sicr... roedd pawb yn barod am fwyd. Roedd staff y gwesty yn hynod o gwrtais a chroesawgar ac roedden nhw hefyd wedi cael eu siomi ar yr ochr orau am ein hagwedd ni tuag at bobl. Roedd acen yn ychydig o broblem ond roedd hynny yn gweithio y ddwy ffordd!

Sgïo

Cawsom lawer o hwyl yn gwrando ar ddynion y siop llogi yn ceisio dweud ein henwau, a cheisio rhoi'r dillad ymlaen! Roedd y bore cyntaf yn gyfle i bawb ddod i arfer hefo'r eira a gwneud ambell i rediad i lawr y llethr cychwynnol. Roedd pob grŵp yn gwneud pethau gwahanol erbyn yr ail ddiwrnod ac roedd y rhan fwyaf o'r grwpiau i fyny ar fynydd 'Loon'. Roedd pawb yn

mwynhau ar y mynydd yma gan fod cymaint o lethrau gwahanol a rhai mor wahanol i'w gilydd.

Yna symudodd pawb i'r mynydd nesaf, sef Canon. Roedd Canon yn dipyn mwy o sialens gan ei fod mor serth. Roedd dipyn o bobl yn protestio ac roedd y tywydd wedi gwaethygu erbyn hyn. Roedd gennym bedwar o gleifion yn mynd i'r ysbyty ar y nos Iau ac roedd Mr. Barker-Jones wedi bod yno ei hun y noson cynt! Roedd y mynydd newydd wedi ein herio ni'n fawr!

Roedd pawb wedi blino yn mynd yn ôl i'r gwesty bob nos wedi oriau o sgïo, er roedd digon o weithgareddau i gadw pawb yn hapus gyda'r nos. Roedd siocled poeth a bisgedi i lawr y grisiau yn ddi-ffael am 4 o'r gloch ac yna roedd pawb yn neidio i'r pwll nofio neu'r 'hot tubs' neu yn mynd i wario'u harian yn yr 'arcade'. Roedd aml i weithgaredd wedi ei pharatoi yn y nos hefyd fel cwis, karaoke, disgo, a pharti yn y pwll.

Y daith adref

Cyn mynd am y maes awyr cawsom ychydig o oriau mewn canolfan siopau neu 'mall' fel maent yn cael eu galw yn yr UDA. Roedd pawb yn gwario gweddill eu harian ar bresantau i'r teulu (ac iddyn nhw eu hunain!).

Cawsom daith bleserus yn ôl i Gymru ac roedd pawb yn teimlo eu bod yn colli'r UDA yn barod ond yn sicr yn falch o weld adra (yn enwedig yr athrawon!) Cafodd pawb wyliau i'w gofio am byth!